

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru

Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol

(Er mwyn goruchwylio'r gwaith o roi Cynllun Gweithredu ar Wrth-hiliaeth
Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar waith)

CYLCH GORCHWYL

Gwybodaeth am y Panel

Amllder y Cyfarfodydd: Chwarterol

Niferoedd ar y Panel: Deuddeg o bobl (gan gynnwys y Cadeirydd) a benodir drwy broses recriwtio agored.

Caiff ei gadeirio gan: Cadeirydd Annibynnol (aelod o'r panel)

Pwrpas Cyffredinol y Panel

Bydd y panel yn gweithio gyda Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu systemig a'r anfanteision a brofir gan bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn y system cyfiawnder troseddol. Bydd yn cynnig her, cyngor a goruchwyliaeth annibynnol mewn perthynas â materion gwrth-hiliaeth i Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Swyddogaethau Penodol y Panel

- Cynnig her, cyngor a goruchwyliaeth annibynnol mewn perthynas â gwrth-hiliaeth i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, yn bennaf drwy gynghori is-grŵp hil y Bwrdd.
- Monitro'r broses o roi camau gweithredu ac ymrwymadau mewn perthynas â gwrth-hiliaeth ym maes cyfiawnder troseddol ar waith, yn bennaf drwy oruchwylio Cynllun Gweithredu ar Wrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a'i adduned Gwrth-hiliaeth gysylltiedig.
- Bod yn gyfaill beirniadol ar faterion gwrth-hiliaeth i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru drwy'r is-grŵp hil, gan wneud awgrymiadau sy'n canolbwyntio ar atebion ar gyfer gwelliannau, lle caiff materion eu nodi.

4. Cyfrannu profiadau bywyd unigol a safbwyntiau grwpiau cymunedol mewn perthynas â gwrth-hiliaeth ym maes cyfiawnder troseddol.
5. Monitro ac adolygu data ethnigrwydd a gasglwyd ym maes cyfiawnder troseddol i roi safbwynt ar wahaniaethau a chynnydd.
6. Monitro ac adolygu polisïau a gweithdrefnau dethol Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, gan wneud arsylwadau ar effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb hiliol.
7. Gwneud awgrymiadau ac argymhellion ar gyfer gwelliannau a newid mewn perthynas â gwrth-hiliaeth a gwahaniaethau ar sail hil ym mhob rhan o'r maes cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

Gwybodaeth am Aelodau'r Panel

8. Mae'n ofynnol i aelodau'r panel gydweithio gydag aelodau eraill o'r panel a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a dangos parch tuag atynt. Rhaid iddynt gyflawni eu rôl er lles y cyhoedd a chan ddangos parch tuag at yr holl nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
9. Rhaid i aelodau'r panel fynychu cyfarfodydd mor aml â phosibl ac ymddiheuro ymlaen llaw os na allant fynychu. Fel arfer, byddant yn bresennol ar-lein/yn rhithwir. Lle na fydd aelod o'r panel wedi mynychu tri chyfarfod yn olynol, mae'n bosibl y gofynnir iddo gamu i lawr, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.
10. Bydd aelodau'r panel yn cael eu talu yn ôl yr awr. Bydd hyn yn cynnwys yr amser a gymerir i fynychu cyfarfodydd a nifer dynodedig o oriau fesul cyfarfod ar gyfer darllen ymlaen llaw a pharatoi. Bydd aelodau'r panel ond yn cael eu talu am y cyfarfodydd a fynychir ganddynt.
11. Bydd aelodau'r panel yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd, gyda'r opsiwn i ofyn am gyfnod pellach ar ddiwedd y cyfnod hwn.
12. Pan gânt eu penodi, rhaid i aelodau'r panel gyflwyno datganiad o fuddiannau personol, gan gynnwys datganiad eu bod yn deall ac y byddant yn glynu wrth Egwyddorion Nolan ar gyfer Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Rhaid iddynt hefyd lofnodi cytundeb cyfrinachedd.
13. Rhaid i aelodau'r panel ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl ym mhob cyfarfod a bydd y rhain yn cael eu cofnodi.

Gwybodaeth am Gadeirydd y Panel

14. Bydd y Cadeirydd a benodir yn parhau'n Gadeirydd am gyfnod o ddwy flynedd oni fydd yn dewis camu i lawr. Ar ddiwedd y ddwy flynedd, gall y Cadeirydd ddymuno gynnig ei hun am un tymor arall.
15. Bydd Cadeirydd y Panel yn cael ei dalu yn ôl yr awr a bydd disgwyl iddo weithio mwy o oriau fesul chwarter nag aelodau eraill y panel. Bydd hyn er mwyn mynychu rhai o gyfarfodydd is-grŵp hil Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru er enghraifft, er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ran y panel a chyfarfod ag arweinwyr cydraddoldeb hiliol i drafod cynnydd.
16. Bydd Cadeirydd y Panel hefyd yn cydgysylltu ag arweinwyr a fforymau cenedlaethol eraill er mwyn sicrhau bod gwrth-hiliaeth ym maes cyfiawnder troseddol yn parhau'n flaenoriaeth ac y gellir darparu gwybodaeth o safbwynt Cymru mewn sgysiau cenedlaethol.